## Adroddiad Prif Weinidog Cymru Awst 2001 – Gorffenaf 2002

Croeso i'm hail adroddiad blynyddol fel Prif Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Fis Hydref diwethaf, cyhoeddais Cynllun i Gymru 2001, a oedd yn gosod agenda ar gyfer gweddill oes y Cynulliad cyntaf hwn. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi rhywfaint o'r gwaith da sydd wedi dwyn ffrwyth.

Mae nifer o bobl yn gofyn i mi pa wahaniaeth y mae'r Cynulliad yn ei wneud. Yn yr adroddiad hwn rydym yn nodi rhai o'r manteision y mae pobl Cymru bellach yn eu mwynhau o ganlyniad uniongyrchol i benderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- presgripsiynau rhatach na Lloegr;
- cludiant bws rhad ac am ddim i bensiynwyr a phobl anabl;
- mynediad rhad ac am ddim i'n hwyth amgueddfa genedlaethol;
- dim profion statudol Cyfnod Allweddol 1 mewn ysgolion;
- gofal cartref rhad ac am ddim am chwe wythnos;
- Grantiau Dysgu'r Cynulliad, ar sail prawf moddion, ar gyfer pobl dros 18 oed sydd mewn addysg uwch ac addysg bellach;
- sefydlwyd Cyllid Cymru fel 'banc' hwylus i'w ddefnyddio ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint;
- Cynllun peilot y Fagloriaeth Gymreig ar gyfer cwricwlwm grwp oed 16-19 mewn 19 o ysgolion a cholegau

Drwy roi'r enghreifftiau ymarferol hyn at ei gilydd, fe welwch agenda gyffrous a dull gweithredu newydd ar gyfer llywodraeth sy'n arbennig i Gymru. Rydym am adeiladu dyfodol cynaliadwy, ffyniannus a theg i Gymru. Rydym ar y blaen o ran Rhyddid Gwybodaeth a gall unrhyw un daro golwg ar gofnodion ein cyfarfodydd Cabinet ar wefan y Cynulliad.

Mae ein polisïau er budd pob rhan o Gymru a hynny'n gyfartal. Dros yr haf roedd yr holl Gabinet wedi cyfrannu at sesiwn drafod agored i gyhoedd Gogledd Cymru yn Llandudno ac roedd nifer dda yn bresennol – a byddwn yn ailadrodd hyn mewn rhannau eraill o Gymru gan roi clust uniongyrchol i bryderon pobl. Rydym wrthi'n datblygu ein polisi gwasgaru swyddfeydd, a fydd yn golygu y bydd cannoedd yn fwy o staff Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio mewn gwahanol rannau o Gymru y tu allan i Gaerdydd.

Fis Awst eleni cynrychiolais Gymru yn Uwch-gynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy yn Johannesburg. Mae Cymru'n arwain y ffordd drwy lunio rhwydwaith rhyngwladol newydd o lywodraethau rhanbarthol o bob cyfandir yn y byd. Roedd cyflwyno llais Cymru ar ddatblygu cynaliadwy yn rhyngwladol fel hyn am y tro cyntaf yn achlysur unigryw.

Mae diweithdra wedi parhau i ddisgyn. Mae bellach ar lefelau nas gwelwyd ers canol y 1970au. Rydym wedi helpu i sicrhau dyfodol newydd ar gyfer ardaloedd Cymru a oedd wedi dioddef fwyaf yn sgîl colli swyddi Corus a chlwy'r traed a'r genau. Mae amrywio a datblygu economi Cymru a sgiliau gweithlu Cymru yn parhau i fod yn un o'n prif flaenoriaethau.

## Addysg a Dysgu Gydol Oes

*“Rydym wedi ymrwymo i gyrraedd y safonau addysg a hyfforddiant uchaf posib ar gyfer pawb yng Nghymru”*

Flwyddyn yn ôl bu i ni gyhoeddi strategaeth gynhwysfawr gyntaf Cymru ar gyfer datblygu ein haddysg a’n hyfforddiant – Y Wlad sy’n Dysgu. Ers hynny aeth y broses o’i gweithredu rhagddi’n hwylus.

***Gwella Safonau***

Credwn mewn sicrhau'r gorau gan ein plant, ein pobl ifanc a'n hoedolion sy'n dysgu a sicrhau’r gorau ar eu cyfer, ble bynnag y bônt yn byw a beth bynnag y bo'u cefndir cymdeithasol.

Dim ond 0.6 y cant o ddisgyblion oedd mewn dosbarthiadau o dros 30 erbyn mis Medi 2001. Rydym yn dal i leihau maint dosbarthiadau plant iau.

Rydym yn cyrraedd safonau addysg da yn ein hysgolion. Mae cyflawniad cyffredinol disgyblion bron ym mhob pwnc craidd a phob cyfnod allweddol yn well na’r flwyddyn diwethaf. Mae ansawdd yr addysgu yn foddhaol neu'n well mewn dros 93% o wersi ysgolion cynradd ac uwchradd ac aseswyd bod dros 50% yn dda neu’n dda iawn.

Rydym wedi rhoi’r gorau i roi profion statudol i blant 7 mlwydd oed, ac wedi lansio canllawiau newydd ACCAC i ysgolion ar gyfle cyfartal.

Mae’r Fagloriaeth Gymreig yn cael ei datblygu a bydd cynllun peilot yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2003 ymlaen.

Cyflawnwyd blwyddyn weithredol gyntaf Cyngor Cenedlaethol ELWa. Yn ystod y newid aruthrol hwn rydym wedi sicrhau sefydlogrwydd tra’n sicrhau llwyfan ar gyfer datblygu a chydweithio pellach.

Mae awdurdodau lleol a’u partneriaid wedi sefydlu Partneriaethau Pobl Ifanc i wireddu gweledigaeth y Cynulliad fel y’i disgrifir yn ‘Ymestyn Hawliau’.

***Gwella Sgiliau***

Rydym wedi ymrwymo i gryfhau’r cysylltiadau rhwng dysgu a busnes, ac i greu cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu yn y gwaith.

Mae ein Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth wedi’i sefydlu, gan ddisgrifio’r camau ar gyfer codi’r lefelau sgiliau ar draws Cymru.

Bu i ni sicrhau bod rhagor o bobl yn gallu manteisio ar hyfforddiant sgiliau drwy gyflwyno’r Diploma Sgiliau Modern i Oedolion, drwy ymestyn Prentisiaethau Modern i rai dros 25 oed a thrwy sefydlu cronfa datblygu sgiliau newydd gwerth hanner miliwn o bunnau. Mae dros 10,055 o Brentisiaid

Modern dan hyfforddiant ac mae dros fil yn dilyn y Diploma Sgiliau Modern i Oedolion newydd.

Cafwyd 50,000 a mwy o alwadau i cyswlltdysgu a chynhaliwyd dros 170,000 o gyfweliadau personol i helpu pobl ifanc ac oedolion i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am ddysgu a gyrfaoedd.

***Ymgeisio yn Uwch***

Rydym wedi ymrwymo i greu oes newydd o ddysgu ôl-16 yng Nghymru gyda chyfranogiad mor eang â phosib.

Cyflwynasom y cynllun newydd, Grantiau Dysgu'r Cynulliad, grantiau sy'n rhoi gwir ysgogiad i fyfyrwyr o deuluoedd llai cefnog, barhau mewn addysg bellach ac addysg uwch ar ôl cyrraedd 18 mlwydd oed.

Mae cyfranogiad ym maes Addysg Bellach bron ddwywaith cymaint â degawd yn ôl erbyn hyn. Roedd 99 y cant o'r addysgu Addysg Bellach a aseswyd gan Estyn yn foddhaol neu'n well, a ni sy'n cynnig y cwricwlwm Addysg Bellach ehangaf yn y DU.

Mae ein targedau ar gyfer 2002 i ostwng nifer y bobl ifanc 16 i 18 mlwydd oed nad oes ganddynt gymwysterau bellach wedi'u cyrraedd.

Bu i ni osod gweledigaeth glir ar gyfer y sector Addysg Uwch yng Nghymru gyda nodau ar gyfer cyfranogi, ymchwilio a datblygu gwybodaeth.

Gwelwyd gwelliant sylweddol yng ngwaith ymchwil y maes Addysg Uwch a chyfrannodd y Cynulliad £6 miliwn o arian ychwanegol i gefnogi'r ymchwil hwn.

***Cefnogi Athrawon***

Rydym yn gwneud Cymru yn lle rhagorol ar gyfer addysgu yn ogystal â dysgu.

Cyflwynwyd cymhelliannau ychwanegol er mwyn denu'r graddedigion gorau i'r byd addysgu.

Rydym wedi ymrwymo i ddal i ddatblygu a hyfforddi athrawon ac rydym yn cyflwyno trefniadau cynefino newydd ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso yn ogystal â chynyddu'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a hyfforddiant ym maes arweinyddiaeth a phrifathrawiaeth mewn ysgolion.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

"*Rydym wedi ymrwymo i wella gwasanaethau iechyd a lleihau'r anghydraddoldebau o ran mynediad, hybu gwell iechyd, mynd i'r afael â gwaeledd yn effeithiol, a gwella safonau gofal."*

***Bodloni anghenion y Bobl***

Byddwn yn cyflwyno'r strwythurau GIG newydd yng Nghymru erbyn Ebrill 2003. Bydd y 22 o Fyrddau Iechyd Lleol yn agos at bobl leol – byddant yn ymateb i anghenion lleol ac yn comisiynu gwasanaethau lleol.

Rydym wedi cyflwyno cynllun Archwiliadau Iechyd Llygaid am ddim i grwpiau mewn risg.

Mae costau presgripsiwn wedi'u rhewi eto yng Nghymru.

Rydym wedi sefydlu ysgogiadau i recriwtio a chadw meddygon teulu megis y cynllun " taliadau croeso" o £5,000 i ddenu meddygon teulu i Gymru.

Cyhoeddwyd grwp arall o 13 o brosiectau dan y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd – bellach ceir 67 o brosiectau mewn cymunedau difreintiedig ledled Cymru.

***Rhwystro gwaeledd***

Sefydlwyd cynlluniau ysgolion iach ym mhob ardal yng Nghymru ac mae 300 o ysgolion yn cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi parhau â'r rhaglen atal a rhoi'r gorau i ysmygu, rhaglen a anelir yn benodol at ysmygwyr yn eu harddegau.

Lansiwyd ymgyrch i gynyddu'r ymwybyddiaeth o afiechydon rhyw ymysg pobl ifanc 16-30 mlwydd oed.

Rhoddwyd ugain o grantiau gwerth cyfanswm o £70,000 i gefnogi prosiectau bwyd lleol ar draws Cymru.

***Cefnogi pobl oedrannus***

Cyflwynwyd gofal nyrsio am ddim i breswylwyr cartrefi nyrsio. Bu Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda phartneriaid ar Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn.

***Gwella safonau gofal***

Cymerwyd camau breision i wella safon y gofal a ddarperir i bobl fregus. Sefydlwyd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru gyda swyddfeydd ym mhob rhan o Gymru.

Crëwyd Cyngor Gofal Cymru, a fydd yn gweithio i godi safonau yn y Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

Mae'r Strategaeth i Ofalwyr wrthi'n cael ei gweithredu ac mae'n cael effaith bositif ar fywydau bob dydd gofalwyr.

Rydym wedi cyhoeddi ein cymeradwyaeth i gynllun ailgartrefu Ysbyty Bryn y Neuadd sy'n golygu y caiff yr holl raglenni ailgartrefu ysbytai anabledd dysgu arhosiad hir eu cwblhau erbyn 2006 gan alluogi'r ysbytai hyn i gau.

Caiff cronfa newydd o'r enw Cymorth – Cronfa Gymorth I Blant a Phobl Ifanc – ei sefydlu erbyn mis Ebrill 2003. Bydd dros £35 miliwn ar gael yn 2003/4. Hwn yw'r tro cyntaf i gronfa gyfun o'r fath gael ei sefydlu yn y DU.

Cynyddwyd yr arian ar gyfer partneriaethau gofal plant lleol a grantiau sefydlu i warchodwyr plant drwy gyfrwng Cynllun Gweithredu Gofal Plant Llywodraeth y Cynulliad.

***Cyflwyno Gwasanaethau***

Mae'r amser aros hiraf am lawdriniaeth ar y galon wedi'i ostwng i ddeuddeg mis.

Yn gyffredinol, mae'r amseroedd aros hiraf ar gyfer triniaethau orthopedig wedi'u gostwng i 18 mis.

Rydym wedi gosod targedau er mwyn sicrhau bod cleifion yr ystyrir eu bod yn achosion brys gan arbenigwr canser yn cael sylw ymhen deng diwrnod ar ôl i'r ysbyty dderbyn y cyfeiriad gan y meddyg teulu.

Ariannwyd dros 100 o welyau ychwanegol mewn ysbytai.

Yng Nghymru y mae rhai o'r amseroedd aros byrraf i'w gweld yn y DU ar gyfer cleifion damweiniau ac argyfyngau, gyda bron i 85 y cant o'r achosion yn cael sylw meddyg cyn pen awr.

Rydym hefyd wedi penodi ymgynghorwyr, nyrsys a staff eraill ychwanegol.

Mae'r Ysgol Glinigol yn Abertawe bellach ar agor, a disgwyliwn ragori ar ein targedau ar gyfer rhoi rhagor o feddygon a nyrsys dan hyfforddiant yng Nghymru.

Lansiwyd Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Afiechyd Coronaidd y Galon ym mis Gorffennaf 2001. Ers hynny, dechreuwyd gwaith ar uned gofal coronaidd newydd yn ysbyty Nevill Hall, y Fenni ac ar uned ddydd gardioleg newydd yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Yn awr, mae gan Gymru hefyd Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion a bydd yn datblygu gwasanaethau sy'n hygyrch, yn ymatebol ac yn effeithlon.

Ymysg gwaith arall a wnaed yn ddiweddar y mae:

- Gweithredu cynlluniau trefnu apwyntiad drwy gyfrwng Tîm Arloesi mewn Gofal y Cynulliad
- Cyhoeddi Safonau Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer y Clefyd Siwgr yng Nghymru
- Rhoddi caniatâd i fwrw ymlaen â sefydlu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Arennol

## Datblygu Economaidd

*"Rydym wedi ymrwymo i wneud Cymru yn economi fwy cynhyrchiol – gan wella ansawdd ac amrywiaeth y swyddi sydd ar gael, gan gael rhagor o bobl i waith a datblygu cyfleoedd mewn ardaloedd tlotach."*

***Cymru'n Ennill***

Lansiwyd "Cymru'n Ennill", Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol newydd cymru ym mis Ionawr 2002. Mae hon yn esbonio'r blaenoriaethau a'r camau a gymerir I foderneiddio'r economi Gymreig, taenu ffyniant a datblygu'n gynaliadwy.

Rydym wedi sefydlu Panel Ymgynghorol newydd ar Ymchwil Economaidd a fydd yn arwain rhaglen o waith ymchwil i sicrhau bod y strategaeth yn aros yn gyfoes ac yn berthnasol i anghenion Cymru.

***Cefnogi busnesau i sicrhau twf***

Yn ystod y flwyddyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau yn sylweddol.

Lansiwyd corff benthyca newydd – "Cyllid Cymru" – er mwyn llenwi bwlch yn y farchnad i gyllido cwmnïau llai.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio strategaeth i gynorthwyo a chefnogi sectorau twf, i hybu clystyrau a chefnogi cadwyni cyflenwi.

Roedd 2001/2 yn flwyddyn heb ei bath ar gyfer cynigion Cymorth Dewisol Rhanbarthol; dylai hwn sicrhau £623 miliwn o fuddsoddiadau gan 270 o brosiectau a chreu neu ddiogelu 13,100 o swyddi. Mae enghreifftiau o gwmnïau y cynigiwyd cymorth iddynt ar gyfer eu cynigion buddsoddi yn cynnwys Faurecia Automotive Seating yng Nglannau Dyfrdwy, Elev 8 Solutions yn Rhydaman, Continental Teves yng Nglynebwy, a General Dynamics yn Oakdale.

Cyflwynasom Grant Buddsoddi newydd y Cynulliad i gynorthwyo busnesau bach ledled Cymru gyda chymorth ariannol i gefnogi eu buddsoddiad heb fyrdwn dianghenraid cymhlethdod llenwi ffurflenni.

Rydym hefyd yn dal i annog arloesedd. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros raglenni grant Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer arloesedd ym maes cynnyrch a phroses – SMART Cymru - i Awdurdod Datblygu Cymru, gan sicrhau mwy o ffocws a chydlyniad. Dyfarnwyd bron i 140 o grantiau gennym a oedd yn werth £4.8 miliwn. Rydym yn sefydlu rhwydwaith o ganolfannau arloesi i helpu i droi syniadau da yn gynnyrch proffidiol.

Mae'r rhaglen Technium newydd – canolfannau deor busnes newydd i fusnesau wedi'u cysylltu ag arbenigedd academaidd – yn cael ei chyflwyno'n

raddol ac mae'r gwaith ar gyfer lansio Canolfan Masnacheiddio Technoleg, Gwasanaeth Ymgynghorol ar Weithgynhyrchu a Chanolfan Rhagoriaeth Gweithgynhyrchu Ranbarthol gysylltiedig yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn mynd rhagddo'n hwylus.

Swyddogaeth Cyswllt Busnes – y gwasanaeth cynghori busnesau – yw ei gwneud yn haws i fusnesau bach ganfod y dewis helaeth o gymorth sydd ar gael iddynt – o help gydag adeiladau i hyfforddi staff a grantiau.

***TGCh ac e-fasnach***

Mae'n hanfodol bod busnesau yn defnyddio TGCh i'r eithaf os ydym am foderneiddio ac arallgyfeirio'r economi Gymreig. Dyma pam fod Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymaint o flaenoriaeth i ddatblygu cysylltedd band eang a'i ddefnydd ymysg busnesau Cymru – gan neilltuo dros £100 miliwn i'r perwyl hwn. Rydym yn dal i ddatblygu rhwydwaith dysgu gydol oes/band eang y sector cyhoeddus ac, ar y cyfan, mae cysylltedd band eang yn gwella. Cofrestrodd dros 200 o gwmnïau Cymreig ar gyfer gwobrau e-fasnach y DU gyfan.

***Adfywio Economaidd***

Mae Rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2000/06 yn gyfle euraid i Gymru, yn enwedig y ddwy ran o dair o Gymru sydd yn ardal Amcan Un – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae Cymru yn cymharu'n dda iawn gyda rhanbarthau'r DU o safbwynt gweithredu Amcan 1.

| *(hyd at Fehefin 2002)* | **Amcan 1** | **Amcan 2** | **Amcan 3** |
|---|---|---|---|
| Nifer y Prosiectau a Gymeradwywyd | 579 | 39 | 292 |
| Gwerth y Grant a Ymrwymwyd | £336.3m | £4.6m | £30.4m |
| % Cyfanswm y Cronfeydd a Ymrwymwyd | 29.4% | 6.2% | 37.3% |
| Faint a Dalwyd | £101.7m | £0.3m | £11.2m |

***Cynaliadwyedd***

Mae datblygu cynaliadwy yn ganolog i'n strategaeth datblygu economaidd. Dyma dri datblygiad pwysig yn ystod y flwyddyn:

- Gweithiwyd i lunio polisi ynni glân neilltuol i Gymru er mwyn cyfrannu tuag at sicrhau costau ynni is i fusnesau yn ogystal ag at wneud Cymru yn lle glanach i fyw a gweithio ynddo.
- Cyflwynwyd cais llwyddiannus a lansiwyd rhaglen gweithgareddau arloesol ranbarthol dan raglen nawdd Ewropeaidd i hybu amcanion datblygu cynaliadwy.
- Derbyniwyd cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd i arwain rhwydwaith o Ranbarthau Ewropeaidd o dan y rhaglen gweithgareddau arloesol.

***Twristiaeth***

Mae arwyddocâd arbennig i'n rhaglenni i gefnogi twristiaeth yng ngoleuni effaith clwy'r traed a'r genau ac ymosodiad y terfysgwyr ar Ganolfan Fasnach y Byd. Mae'r gwariant ar hybu Cymru a chefnogi busnesau bach a chanolig eu maint ym maes twristiaeth wedi cynyddu 26% ers y llynedd.

Dyfarnwyd cymorth grant gwerth £10.7 miliwn i 370 o brosiectau unigol, gan greu gwerth £34.3 miliwn o fuddsoddiad a 1,240 o swyddi sy'n gyfwerth â llawn amser, a diogelwyd 441 o'r rheini.

## Cymunedau a Llywodraeth Leol

*"Rydym wedi ymrwymo i wella ansawdd bywyd yn ein cymunedau, yn enwedig ymysg y rhai mwyaf difreintiedig; i gefnogi pawb i gael gafael ar dai o safon; ac i hyrwyddo democratiaeth leol effeithiol sy'n rhoi'r rheolaeth dros gymunedau lleol yn nwylo'r bobl ac yn sicrhau gwasanaethau lleol o safon."*

***Rhoi Cymunedau'n Gyntaf***

Cymerwyd y camau cyntaf ar y daith faith i adfywio'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Sefydlwyd partneriaethau lleol gan bobl leol a neilltuwyd dros £10 miliwn ar eu cyfer.

Sefydlwyd Cronfa Ymddiriedolaeth Rhoi Cymunedau'n Gyntaf i gynnig grantiau bychain i grwpiau cymunedol a gwirfoddol lleol. Bydd gan y Gronfa £9 miliwn dros 3 blynedd.

Yr amcan yw sicrhau, wrth i'r bobl leol ganfod eu hanghenion, fod pob rhan o Lywodraeth y Cynulliad mewn sefyllfa i ymateb. I'r perwyl hwn, sefydlwyd Bwrdd Polisi Adfywio Cymunedol a Chynhwysiant Cymdeithasol, sy'n cynnwys cyfranogion o bob rhan o'r llywodraeth yng Nghymru.

***Mynd i'r Afael â Throseddau***

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod yr effaith negyddol a gaiff troseddau ac ofn troseddau ar gymunedau yng Nghymru ac rydym wedi dechrau llunio ein strategaeth i leihau troseddau a gwneud ein cymunedau'n fwy diogel.

***Tai Gwell***

Mae ein Strategaeth Dai Genedlaethol - *'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru'* – yn disgrifio gweledigaeth hirdymor Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer tai yng Nghymru, lle caiff pawb y cyfle i fyw mewn cartrefi o safon.

Er mwyn cyflawni hyn, sefydlwyd Safon Ansawdd Tai Cymru gyda'r targed o sicrhau bod pob tŷ yn cyrraedd y safon hon erbyn 2012.

Rhoddwyd canllawiau i awdurdodau lleol, gan ei bod yn ofynnol iddynt yn ystod y flwyddyn hon asesu cyflwr y stoc tai presennol a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gyrraedd y safon sy'n ofynnol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi llunio Strategaeth Digartrefedd Genedlaethol ddrafft, gan roi ystyriaeth i waith Comisiwn Digartrefedd y Cynulliad.

Rydym wedi llunio strategaeth a chynllun gweithredu i fodloni'r anghenion tai ymysg cymunedau ac unigolion duon a lleiafrifoedd ethnig– gan sicrhau cydraddoldeb yn ein gwlad amrywiol.

***Llywodraeth Leol Fodern***

Mae’r 22 prif awdurdod lleol yng Nghymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i sefydlu strwythurau gwleidyddol newydd sy’n egluro’r arweinyddiaeth wleidyddol o fewn yr awdurdodau hynny ac yn sicrhau bod yr arweinyddiaeth honno’n gwbl atebol ac y caiff ei harchwilio’n llwyr.

Rydym wedi darparu’r datganiad cynhwysfawr cyntaf ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru – “*Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol*” - awdurdodau lleol sy’n rhoi arweiniad clir i’w cymunedau; sy’n cyflwyno ac yn sicrhau gwasanaethau o safon i’w cymunedau lleol; ac sy’n agored, yn hygyrch ac yn atebol.

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol Cymru nod cyffredin i sicrhau bod y gwasanaethau lleol o’r safon uchaf a’u bod yn cyflawni canlyniadau. Ceir cytundebau polisi rhwng Llywodraeth y Cynulliad a phob awdurdod lleol, cytundebau sy’n nodi’r canlyniadau allweddol y mae’n rhaid eu cyflawni ym mhob ardal leol.

Cyflwynasom ddull gweithredu newydd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y cyflwynir gwasanaethau lleol – Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella – mae’r rhaglen hon yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn gwneud asesiad cynhwysfawr o’i allu i gyflwyno gwasanaethau ac yn paratoi Cynllun Gwella. Cedwir golwg annibynnol ar y cynlluniau hyn a’r modd y’u gweithredir drwy gyfrwng archwiliadau ac arolygon.

Rydym yn sicrhau bod gwybodaeth o well safon am berfformiad ar gael drwy gyfrwng Uned Ddata Llywodraeth Leol.

Rhannwn yr un nod â llywodraeth leol, sef sicrhau bod gwasanaethau lleol yn bodloni anghenion yr holl grwpiau gwahanol yng Nghymru ac, i’r perwyl hwn, rydym wedi sefydlu Uned Cydraddoldebau Llywodraeth Leol.

## Yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

*“Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y dulliau o ddefnyddio tir ac adnoddau Cymru, ein dulliau o symud o gwmpas ac o drefnu ein trefi a’n pentrefi yn hyrwyddo ac yn cynnal ein hamgylchedd, ein heconomi ac ansawdd ein bywyd.”*

### *Cynaliadwyedd*

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad ddyletswydd cyfreithiol unigryw i hybu datblygu cynaliadwy.

Rydym yn mireinio cyfryngau sefydliadol a pholisi i sicrhau bod ein holl weithredoedd a’n polisïau, a rhai’r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, yn cefnogi datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn ofynnol dan Gynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad ac fel yr adroddir yn yr adroddiad blynyddol ar weithredu’r cynllun hwn.

Un o gynlluniau mwyaf llwyddiannus y llywodraeth sy’n dod â datblygu cynaliadwy yn fyw, yw Cronfa Datblygu’r Amgylchedd, sy’n cefnogi 198 o brosiectau mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Rydym wedi ymrwymo i weithio y tu hwnt i’n ffiniau i rannu arferion da ac arloesedd ac rydym wedi
- Trefnu cynhadledd bwysig yng Nghaerdydd gyda WWF ac Oxfam;
- Sefydlu rhwydwaith o Ranbarthau Ewropeaidd;
- Cyfranogi yn Uwch-gynhadledd y Byd yn Johannesburg a sefydlu rhwydwaith rhyngwladol ar ddatblygu cynaliadwy.

### *Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy*

Mae mynd i’r afael â gwastraff yn flaenoriaeth bwysig ac rydym wedi ymrwymo adnoddau sylweddol i gefnogi newid mawr mewn arferion.

Lansiwyd ***Strategaeth Wastraff Cymru**.* Ei nod yw lleihau gwastraff ac ail-ddefnyddio cymaint â phosib o wastraff, gan sicrhau manteision economaidd wrth wneud hynny. Bydd hyn yn arwain at ddibynnu ar gladdu sbwriel i raddau llawer llai yn y dyfodol. Mae’r strategaeth yn gosod targedau allweddol ac yn sefydlu’r trefniadau lleol a rhanbarthol angenrheidiol.

### *Trafnidiaeth*

Cyflwynasom y **Cynllun Tocyn Bws Rhad ac am Ddim** i Gymru gyfan sy’n rhoi’r hawl i bob menyw dros 60 oed, dynion dros 65 a phobl a gofrestrwyd yn anabl gael trafnidiaeth am ddim ar fysiau lleol.

Lansiwyd y **Fframwaith Trafnidiaeth** newydd – sy’n dangos sut y byddwn yn creu’r seilwaith trafnidiaeth a’r gwasanaethau y mae arnom eu hangen yng Nghymru, yn fewnol ac i’n cysylltu gyda gweddill y byd. Mae’r Fframwaith

Trafnidiaeth newydd yn cael ei ddefnyddio i arwain y gwaith o asesu'r bidiau ar gyfer Grant Trafnidiaeth a datblygu'r polisi ymhellach, fel yn achos Strategaeth ddrafft Cerdded a Beicio Cymru.

I gefnogi trafnidiaeth integredig leol rydym wedi rhoi £130 miliwn arall at y Grant Trafnidiaeth yn ychwanegol at y £300 miliwn a ddarparwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r Flaenraglen Cefnffyrdd yn rhoi sylw i nifer o anghenion allweddol a fwriedir i gefnogi a sicrhau gwelliannau economaidd ac amgylcheddol i gymunedau.

Mae'r broses o sefydlu Masnachfraint Rheilffordd i Gymru a'r Gororau yn parhau, yn ogystal â'r broses o gefnogi a gwella'r rhwydwaith cyn ei sefydlu.

***Cynllunio***

Cafodd ***Polisi Cynllunio Cymru*** ei adolygu'n llwyr ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002. Mae hon yn ddogfen unigryw, gynhwysfawr ac integredig sy'n disgrifio polisïau defnyddio tir Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n gyfrwng pwysig ar gyfer bodloni ein dyletswydd datblygu cynaliadwy a hyrwyddo ffyniant, drwy ddarparu'r fframwaith polisi strategol ar gyfer cynlluniau datblygu ac ar gyfer gwneud penderfyniadau am geisiadau ac apeliadau cynllunio.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi, fel ymgynghoriad, *'Cynllunio: Cyflawni dros Gymru'*, dogfen sy'n esbonio'r cynigion i wella'r system gynllunio yng Nghymru.

Rydym wedi parhau â'n paratoadau ar gyfer **Cynllun Gofodol i Gymru**

***Ehangu Mynediad***

Mae'r gwaith o weithredu Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn mynd rhagddo'n hwylus yng Nghymru

Cyhoeddasom '*Goresgyn y Rhwystrau'*, sy'n cynnig arweiniad ar ffyrdd o wella'r mynediad i adeiladau hanesyddol, ac oddi mewn iddynt – gan sicrhau amrywiaeth a chydraddoldeb yn ein treftadaeth ddiwylliannol.

***Gwerthfawrogi ein Treftadaeth Genedlaethol***

Cynhaliwyd cynhadledd bwysig i gyfuno'r agweddau diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ar dreftadaeth.

Gyda golwg ar gadwraeth natur rydym wedi creu tair Ardal Warchod Arbennig newydd ar gyfer Adar, wedi sefydlu gweithdrefnau newydd ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; ac wedi ymgynghori ar gynefinoedd a rhywogaethau fel ffocws i gadwraeth bioamrywiaeth.

## Datblygu Gwledig

*"Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo economi wledig gynaliadwy ac amrywiol sy'n caniatáu i gymunedau gwledig ffynnu ac addasu".*

### *Cefnogi'r Economi Wledig*

Datganwyd bod Cymru yn rhydd o Glwy'r Traed a'r Genau ym mis Rhagfyr. Rydym yn dal i gymryd camau i sefydlu rhagofalon rhag cael achosion drachefn gan gynnwys trefniadau newydd ar gyfer symud da byw. Ailagorwyd y marchnadoedd da byw ym mis Chwefror 2002.

Llwyddom i ganolbwyntio drachefn ar ddatblygu'r economi wledig yn yr hirdymor. Gwariwyd dros £34 miliwn hyd at ddiwedd mis Mehefin dan y Cynllun Adfer Cefn Gwlad i gynorthwyo busnesau yr effeithiodd y clwy arnynt. Disgwylir y bydd y gwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn dangos bod tua £46 miliwn wedi cael ei wario, tua thri chwarter cyfanswm y Cynllun.

Rydym wedi sefydlu sylfeini pellach ar gyfer yr hirdymor.

- Cymerwyd camau breision i gyflwyno Strategaeth Bwyd-Amaeth Cymru, gan weithio drwy'r Awdurdod Datblygu a'r Partneriaethau Bwyd-Amaeth e.e. labeli Gwir Flas; cytunwyd ar bron i £10 miliwn o gymorth grant.
- Anfonir y cylchgrawn misol '*Gwlad*'' am ddim at bob ffermwr yng Nghymru gan roi gwybodaeth i deuluoedd ffermio i'w helpu i addasu eu busnesau.
- Cyhoeddwyd cynigion ar gyfer un corff strategol i fwrw datblygiad diwydiant cig coch Cymru yn ei flaen.
- Sefydlwyd y Cynllun Genoteipio Mamogiaid Cymru i help i wella'r ymwrthedd i'r ysfa ymysg diadellau Cymru.
- Sefydlwyd trefniadau llawer gwell ar gyfer ymgeisio am y Premiwm Blynyddol Defaid, gan fwy na dyblu'r taliadau i ffermwyr Cymru.
- Gwellhawyd y trefniadau ar gyfer ymgeisio am gymorthdaliadau a'u derbyn a sefydlwyd peirianwaith apelio annibynnol.

### *Hybu datblygu gwledig cynaliadwy*

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad '*Ffermio i'r Dyfodol*', y strategaeth gyntaf erioed i'w chyhoeddi'n arbennig i Gymru, sy'n pwyntio at gyfeiriad newydd ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru, cyfeiriad sy'n adlewyrchu egwyddorion cynaliadwyedd. Rydym wedi sicrhau cynnydd gyda 90% o'r camau yn y strategaeth hon.

Un rhan allweddol o'r strategaeth hon i helpu ffermwyr i addasu yw'r cynllun arloesol Cyswllt Ffermio a lansiwyd ym mis Medi – cynllun arloesol ac unigryw Gymreig a dderbyniodd, yn ystod y chwe mis cyntaf, dros 4,000 o ymholiadau, cychwynnwyd oddeutu 1,500 o ymweliadau gan ymgynghorwyr a chwblhawyd oddeutu 250 o gynlluniau datblygu busnes fferm.

Un nodwedd bwysig yw'r rhwydwaith o 30 o ffermydd arddangos a sefydlwyd dan ymbarél canolfannau datblygu arbenigol i gynorthwyo gyda throsglwyddo

technoleg a rhannu'r arferion gorau; sicrhawyd cynnydd ardderchog o ransefydlu'r rhain.

Ymrwymasom £1.5 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol i'r cynllun Tir Gofal ac rydym wedi parhau i gefnogi'r rhaglen i droi fferm yn fferm organig.

Drwy ddefnyddio'r polisi mwyaf caeth bosib ni chynhaliwyd unrhyw dreialon o gnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru. Rydym wedi cychwyn trafodaeth ar draws Ewrop ar reoli cydfodolaeth cnydau a addaswyd yn enetig a rhai nas addaswyd yn enetig.

Rydym wedi dyrannu £2.4 miliwn ychwanegol i Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer pysgodfeydd mewndirol, a sefydlwyd grwp Strategaeth Pysgodfeydd Mewndirol a Morol i ddatblygu'r potensial ar gyfer pysgodfeydd yng Nghymru.

Bu i ni gomisiynu'r Astudiaeth ar Gydbwysedd Oedran i ganfod yr hyn sy'n peri i bobl ifanc adael cymunedau gwledig a'r hyn sy'n eu rhwystro rhag dychwelyd.

## **Cymru Dramor**

*"Rydym wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad economaidd a diwylliannol drwy hybu delwedd Cymru dramor"*

Rydym wedi anfon pecyn *Wales World Nation Communications* i bob Llysgenhadaeth a Chonsyliaeth ar draws y Byd. Rydym wedi llwyfannu digwyddiadau rhyngwladol sy'n rhoi sylw i Gymru ac rydym wedi datblygu partneriaethau rhyngwladol agosach ac rydym yn cymryd mwy o ran mewn rhwydweithiau Ewropeaidd dylanwadol.

Yn ystod y flwyddyn atgyfnerthwyd ein presenoldeb ym Mrwsel. Penodwyd aelod amser llawn o'r Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig yn ystod hydref 2001. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen wrth i ni symud tuag at yr Adolygiad Canol Tymor o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ac mae'n sicrhau llais llawer cryfach i ni ym Mrwsel ar ddyfodol y Polisi hwn.

Bu i ganlyniadau economaidd y digwyddiadau trasig ar 11 Medi 2001 danlinellu'r ffaith fod Cymru yn rhan o farchnad fyd-eang.

Yn ogystal â'r ffaith mai Cymru ydy dewis cyntaf nifer fawr iawn o gwmnïau rhyngwladol wrth chwilio am leoliad, mae mwy a mwy o'n busnesau bach a chanolig eu maint yn cystadlu yn y farchnad fyd-eang. Mae amrediad o raglenni newydd a ddarperir gan Masnach Cymru Ryngwladol wedi'u cyflwyno i hybu a chynorthwyo busnesau i ddatblygu eu gallu i fasnachu yn llwyddiannus ac yn strategol mewn marchnadoedd rhyngwladol.

Ers sefydlu Masnach Cymru Ryngwladol ym mis Ebrill 2000 nodwyd cyfleoedd gwerth dros £750 miliwn, gan arwain at gytundebau gwerth dros £100 miliwn. Mae dros 2,500 o gwmnïau yng Nghymru wedi derbyn cymorth a chefnogaeth sydd wedi creu 81 o allforwyr newydd.

## Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

*"Rydym yn helpu pawb i fynegi eu hunain a'u hunaniaeth drwy gyfrwng y celfyddydau a chwaraeon – gan ehangu cyfranogiad, datblygu rhagoriaeth a chyflwyno Cymru hyderus i'r byd".*

### *Adeiladu ar ein cryfderau creadigol*

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad Strategaeth Ddiwylliant gynhwysfawr gyntaf Cymru: '*Creative Future Cymru Greadigol',* sy'n gosod rhaglen weithredu feiddgar i bob rhan o'r Llywodraeth a phob grwp arall dros y blynyddoedd nesaf.

Er mwyn annog cydweithio ar faterion diwylliannol, rydym wedi sefydlu consortiwm diwylliannol *'Cymru'n Creu'* – i hyrwyddo amrywiol brosiectau, gan gynnwys '*Culturenet Cymru*', sef gwefan sy'n gweithredu fel ffenestr siop i Gymru a'i diwylliant ar gyfer gweddill y byd.

Rydym wedi cynyddu'r cyllid a roddir i'r celfyddydau 23% (cynnydd o £3 miliwn bron) ar gyfer 2002/3.

Mae'r Cyngor Celfyddydau yn paratoi strategaeth datblygu'r celfyddydau ar gyfer 2002/7, gyda'r nod o ddatblygu sector celf a fydd yn ariannol ac yn artistig gynaliadwy ledled Cymru a gweithredu blaenoriaethau *'Creative Future Cymru Greadigo"*. Bu'n adolygu ac yn ymgynghori'n helaeth i baratoi'r strategaeth hon.

Ym mis Ionawr 2002 cytunodd Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi datblygiad Canolfan Mileniwm Cymru, sef prosiect amlwg hynod bwysig i Gymru. Bydd yr adeilad a'r ffenestr siop a rydd i roi mynegiant i ddiwylliant Cymru yn helpu i ddiffinio Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Roedd y cyhoeddiad mai Cymru a fydd yn cynnal cystadleuaeth Cwpan Ryder 2010 yn y Celtic Manor yn newyddion ardderchog i Gymru ac roedd yn deyrnged i bawb sy'n gysylltiedig â'r tîm ymgeisio o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'n ddegawd o gyfle i godi proffil Cymru ar lwyfan y byd a datblygu Cymru fel lleoliad chwarae golff o safon i'r byd twristiaeth.

Rydym hefyd wedi cefnogi cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd yn dwyn yn ei sgîl fanteision anferthol i Gymru gyfan.

### *Hyrwyddo dwyieithrwydd ac amrywiaeth diwylliannol*

Roeddem yn falch o gyfranogi yn adolygiad Pwyllgor y Cynulliad o'r Gymraeg. Mae strategaeth y Llywodraeth yn adeiladu ar waith y Pwyllgor a bydd yn helpu i greu Cymru gwir ddwyieithog lle bydd ein diwylliant a'n mynegiant, yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd, yn cael eu hyrwyddo ac yn datblygu.

Mae strategaeth y Llywodraeth yn cydnabod y berthynas a geir rhwng iaith, diwylliant, economi ac amgylchedd – rhaid i ddiwylliannau a ieithoedd cynaliadwy gael economïau a chymunedau lleol cynaliadwy.

Mae amrywiaeth diwylliannol cyfoethog Cymru yn ymestyn y tu hwnt i'n dwy brif iaith at bobl o nifer o gefndiroedd ethnig a diwylliannol, pobl y mae eu cyfraniad yn cyfoethogi ansawdd ein bywydau ni un ac oll.

***Cynyddu cyfranogiad a mynediad***

Er mwyn datblygu'r gallu celfyddydol a'r gallu artistig y tu hwnt i Gaerdydd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhyddhau £2miliwn y flwyddyn yn ychwanegol.

Sefydlwyd Fforwm Ymwybyddiaeth o Weithgareddau Awyr Agored Cymru gennym i annog unigolion i gyfranogi'n ddiogel mewn gweithgareddau awyr agored a sefydlwyd y Fforwm Pêl-droed i ddatblygu chwaraewyr ifanc yng Nghymru, gan gynnwys pêl-droed i fenywod.

Mae'r Cyngor Chwaraeon wedi cynnal arolygon i gyfranogiad ym maes chwaraeon yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a bydd hyn yn arwain at greu cynlluniau gweithredu i gynyddu'r nifer, o bob oedran, sy'n cyfranogi mewn chwaraeon.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda chyrff dosbarthu'r Loteri i sicrhau bod llifau nawdd y Loteri yn adlewyrchu'r anghenion yng Nghymru. Anelir y Rhaglen Cyfran Deg newydd yn benodol at ardaloedd difreintiedig.

## Cyllid

*"Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a sicrhau y cyflawnwn y canlyniadau gorau am yr arian a fuddsoddir".*

Mae'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2002/3 yn £10.5 biliwn ac rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Trysorlys yn ystod Adolygiad o Wariant 2002 i sicrhau bod Cymru yn cael ei chyfran briodol o'r adnoddau ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Cyhoeddwyd yr Adolygiad o Wariant ym mis Gorffennaf. Gan ystyried hwn a chyhoeddiadau'r Canghellor yng Nghyllideb mis Ebrill, bydd Cyllideb y Cynulliad yn cynyddu £251 miliwn yn 2003/4 o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol gyfredol; bydd yn cynyddu £924 miliwn yn 2004/5 o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol gyfredol a £1.764 biliwn yn 2005/6 o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol gyfredol.

Fel yn yr Adolygiad o Wariant blaenorol, rydym wedi sicrhau gwarchodaeth gwariant i ddefnyddio arian Ewropeaidd yn ychwanegol at ffigurau canlyniadol fformwla Barnett, i fyny at £492 miliwn dros y tair blynedd o 1 Ebrill 2003 ymlaen – o'i gymharu â £421 miliwn ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

### *Cyllideb y Cynulliad*

Bob hydref mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig y gyllideb a fydd yn adlewyrchu'r anghenion a'r blaenoriaethau ar gyfer gwariant cyhoeddus yng Nghymru.

Dengys y siart canlynol y gwariant arfaethedig ar bob prif faes gwasanaeth yn 2002/3.

### *Rheoli Gwariant*

Mae'n holl bwysig bod Llywodraeth y Cynulliad yn rheoli ei gwariant fel nad ydym yn gor-wario; ond mae'r un mor bwysig ein bod yn defnyddio'r holl arian sydd ar gael er mwyn sicrhau yr ariennir y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i'r eithaf.

Yn 2001/2 bu i ni wario dros 99.3% o'n Terfyn Gwariant Adrannol. Mae hon yn gystal record o reolaeth ariannol ag a welir fyth yn y llywodraeth a bwriadwn gynnal y record hon. Mae ein tanwariant o 0.7% yn cymharu â 4.1% yn yr Alban a 6.1% yng Ngogledd Iwerddon, ac mae hefyd yn cymharu'n ffafriol â'r holl adrannau gwario yn Whitehall.

### *Sicrhau Canlyniadau*

Nid yw'n ddigonol cynyddu'r arian sydd ar gael a'i wario – rhaid i ni sicrhau canlyniadau sy'n gwirioneddol wella bywydau pobl Cymru.

Drwy **Fenter Caffael Cymru** bwriadwn wneud arbedion sylweddol a gwella ansawdd y nwyddau a'r gwasanaethau a brynwn – bwriadwn wneud arbediad cychwynnol o £6 miliwn o safbwynt caffael y flwyddyn hon.

Mae'r Cynulliad gyda'i sefydliadau iechyd a'r cyrff a noddir ganddo yn berchen ar nifer fawr o dir, adeiladau a chyfarpar cyfalaf. Er mwyn eu rheoli'n effeithiol rhaid i'r asedau hyn gael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u hadnewyddu. Yn ystod y flwyddyn diwethaf, datblygwyd **Cynlluniau Rheoli Asedau** gan yr holl gyrff perthnasol.

Mae'r Cynulliad yn dal i sicrhau llawer o'i gyflawniadau drwy gyfrwng y **Cyrff a Noddir** ganddo. Mae rhaglen o adolygiadau ar gyfer pob un o'r cyrff hyn yn nesáu at y terfyn a bydd yn arwain at lunio cynlluniau gweithredu i sicrhau gwelliannau o safbwynt cyflwyno gwasanaethau.

# Llywodraeth Agored

*“Rydym wedi ymrwymo i fod ymysg llywodraethau mwyaf agored, hygyrch a chydraddol y byd”.*

### *Rhyddid Gwybodaeth*

Ers Gorffennaf 2001 rydym wedi cyhoeddi, ar y Rhyngrwyd, gofnodion a phapurau cyfarfodydd y Cabinet a chyfarfodydd is-bwyllgorau’r Cabinet (chwe wythnos ar ôl cynnal y cyfarfod) er mwyn i bobl allu gweld beth a drafodwyd. Rydym wrthi’n llunio cynigion i sicrhau y bydd y wybodaeth ffeithiol sy’n sail i holl benderfyniadau unigol Gweinidogion ar gael yn otomatig ar y Rhyngrwyd, ac rydym yn cwblhau cynllun cyhoeddi dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn esbonio pa ddeunydd a ryddhawn i’r cyhoedd. Mae gwybodaeth am waith y Cynulliad hefyd ar gael drwy rwydwaith o lyfrgelloedd cyswllt ym mhob etholaeth.

### *Partneriaeth*

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda phob sector o’r gymdeithas. Y flwyddyn hon, buom yn helpu i sefydlu Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru fel bod gan fusnesau ac undebau llafur adnodd pwrpasol i’w helpu i weithio gyda ni i lunio polisïau. Daw hyn ar ôl rhoi cefnogaeth ychwanegol i’r sector gwirfoddol a chydweithio’n llwyddiannus gyda llywodraeth leol yn y cynghorau partneriaeth ffurfiol.

Buom hefyd yn sefydlu gwefan ymgynghori newydd ar y Rhyngrwyd; bydd hon yn caniatáu i unigolion ddynodi pa ddeunyddiau y maent am eu gweld gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

### *Cydraddoldeb a Phenodiadau*

Mae ein gwaith ar faterion cydraddoldeb wedi ein rhoi ar frig gwaith polisi yn y DU.

Mae’r Cynulliad wedi mabwysiadu’n ffurfiol Gynllun Cydraddoldeb Hiliol sy’n esbonio sut y byddwn yn sicrhau bod ein polisïau yn hybu goddefgarwch hiliol. Mae’r cynllun yn mynnu bod yn rhaid adolygu’r polisïau presennol a chânt eu diweddaru’r flwyddyn nesaf ar ôl yr adolygiad cyntaf hwn.

Yn ystod y flwyddyn, cytunodd y Cynulliad a’r staff ar setliad cyflog a fydd yn caniatáu i unigolion sy’n cymryd egwyl oddi wrth eu gyrfa ddychwelyd ar y lefel cyflog y byddent wedi’i chyrraedd pe na baent wedi cymryd yr egwyl a bydd yn cwtogi’r bandiau cyflog i fynd i’r afael â’r bylchau cyflog sy’n bodoli rhwng dynion a menywod. Credwn fod hyn yn esiampl i gyflogwyr eraill.

Rhoddwyd cyllid penodol i grwpiau cydraddoldeb i sicrhau bod gan bob rhan o’r gymdeithas lais clir wrth wneud polisïau. Ar ôl rhoi cefnogaeth yn y gorffennol i Gynghrair Genedlaethol Menywod Cymru, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), ac Anabledd Cymru, eleni buom

yn helpu i sefydlu Fforwm Hoywon, Lesbiaid a Phobl Ddeurywiol Cymru. Mae'r cyrff hyn yn gweithredu fel cyfeirbwyntiau i ddatblygu polisïau, gan geisio profi'r effaith a gaiff polisïau ar y grwpiau hyn.

Yn sgîl cyfraniad llwyddiannus gan grwpiau anabledd i'r broses llunio polisi, ymestynnwyd y bwriad gwreiddiol i roi tocynnau teithio bws rhad ac am ddim ar gyfer pensiynwyr i gynnwys pobl anabl a'u cymdeithion.

## Cabinet y Cynulliad

### 1af Awst 2001 – 31ain Gorffennaf 2002

| | | |
|---|---|---|
| Prif Weinidog Cymru | | Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC [1] |
| Dirprwy Brif Weinidog Cymru a’r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor | | Mike German AC[2] |
| Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd | | Andrew Davies AC[3] |
| Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau | | Edwina Hart MBE AC |
| Y Gweinidog dros Lywodraeth Agored | | Carwyn Jones AC[4] |
| Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes | | Jane Davidson AC |
| Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg | | Jenny Randerson AC |
| Y Gweinidog dros yr Amgylchedd | | Sue Essex AC |
| Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | Jane Hutt AC |
| | | |
| Y Dirprwy Weinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes | | Alun Pugh AC |
| Y Dirprwy Weinidog dros Lywodraeth Leol | | Peter Black AC |
| Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd | | Brian Gibbons FRCGP AC |
| Y Dirprwy Weinidog dros Faterion Gwledig, Diwylliant a’r Amgylchedd | | Delyth Evans AC |
| Y Dirprwy Weinidog dros Ddatblygu Economaidd | | John Griffiths AC |

[1] Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd tan 26ain Chwefror 2002
[2] o fis Mehefin 2002 ymlaen
[3] Y Trefnydd tan 26ain Chwefror 2002
[4] Y Trefnydd a’r Gweinidog dros Faterion Gwledig (26ain Chwefror 2002 – 17eg Mehefin 2002); Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (tan 26ain Chwefror 2002)